

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

Heatherwood Court, Pontypridd

Dyddiad yr arolygiad: 8 a 9 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 3 Mawrth 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



Gwelsom fod cyfarwyddwr yr ysbyty yn arwain mewn ffordd frwdfrydig ac yn cael ei gefnogi gan dîm amlddisgyblaethol ymrwymedig. Dywedwyd wrthym fod aelodau'r tîm arwain yn hawdd mynd atynt a'u bod yn cefnogi'r staff ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y cleifion.

Er gwaethaf hyn, ni welsom dystiolaeth o drefniadau llywodraethu sefydledig mewn perthynas â rheoli digwyddiadau a rhoi gwybod amdanynt.

O ganlyniad i'r pryderon a nodwyd yn ystod ein harolygiad mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'r diffyg sicrwydd o ran y prosesau a oedd ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau, eu cofnodi a dysgu gwersi ohonynt, nodwyd Heatherwood Court fel Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ar 11 Tachwedd 2022. Bydd AGIC yn gweithio'n agos gyda'r darparwr i sicrhau y gwneir cynnydd wrth ymateb i'r pryderon hyn ac y caiff gwelliannau eu gwneud.



## Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Ysbyty Heatherwood Court ar 8 a 9 Tachwedd 2023. Ni ddefnyddiwyd methodoleg lawn AGIC ar gyfer yr arolygiad, ond yn hytrach canolbwyntiwyd yn benodol ar arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu yn Heatherwood Court, ac ar y prosesau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'u rheoli.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein [gwefan](#).



# Ansawdd Profiad y Claf



## Crynodeb Cyffredinol

- Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar Arweinyddiaeth a Llywodraethu. Ni chafodd Ansawdd Profiad y Claf ei ystyried yn ystod yr arolygiad hwn.



# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

- Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar Arweinyddiaeth a Llywodraethu. Ni chafodd Ansawdd Profiad y Claf ei ystyried yn ystod yr arolygiad hwn.



# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

- Gwelsom waith tîm cydlynol rhwng y tîm Amlddisgyblaethol. Gwelsom fod aelodau'r tîm arwain yn hawdd mynd atynt ac yn cefnogi'r staff. Gwelsom fod risgiau i'r cleifion yn cael eu trafod ar sawl gwahanol lefel yn yr ysbyty, ond er gwaethaf hyn, ni allem fod yn sicr bod trefniadau llywodraethu sefydledig ar waith mewn perthynas â rheoli digwyddiadau a rhoi gwybod amdanynt.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom fod cynlluniau rheoli risg wedi cael eu cwblhau i lefel uchel.
- Gwelsom fod taflenni gwybodaeth barod am gleifion ar gael ar gyfer nifer bach o'r cleifion. Roedd y taflenni gwybodaeth barod hyn yn ei gwneud hi'n hawdd i bob aelod o'r staff, boed yn staff rheolaidd neu'n staff asiantaeth, ddeall anghenion y claf. Roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y cleifion mwy heriol ac agored i niwed gan alluogi'r staff i gael cyngor cyflym ar y ffordd orau i helpu'r claf yn ystod argyfwng. Roedd y taflenni gwybodaeth barod yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd orau i dawelu'r claf a sut i annog y claf i ymddwyn yn fwy cadarnhaol. Roeddent hefyd yn cynnwys trefn benodol o ran sut i ymdrin ag argyfwng y claf gan ar yr un pryd sicrhau bod eitemau a allai fod o risg i'r claf bob amser yn cael eu hystyried er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu cadw'n ddiogel.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Gwnaethom edrych ar ffurflenni digwyddiadau cleifion a ffurflenni atgyfeiriadau diogelu. Gwelsom nifer o ffurflenni digwyddiadau a ffurflenni atgyfeiriadau diogelu a oedd yn cyrraedd y trothwy lle roedd angen hysbysu

AGIC o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<sup>1</sup>, nad oeddent wedi cael eu cyflwyno. Ystyriwyd bod hyn yn achos o dorri'r rheoliadau a chyhoeddwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio.

- Er gwaethaf y ffaith bod swydd cyfarwyddwr yr ysbyty wedi cael ei llenwi, gwelsom dystiolaeth na chydymffurfiwyd â'r gofyniad rheoleiddiol i gael rheolwr cofrestredig yn yr ysbyty ers mwy na 12 mis. Roedd hyn gan fod cyfarwyddwr blaenorol yr ysbyty wedi gadael yn sydyn ac o ganlyniad i oedi wrth benodi a chofrestru cyfarwyddwr parhaol newydd. Ystyriwyd bod hyn yn achos o dorri'r rheoliadau a chyhoeddwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio.
- O ganlyniad i'r pryderon a nodwyd yn ystod ein harolygiad mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'r diffyg sicrwydd o ran y prosesau a oedd ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau, eu cofnodi a dysgu gwersi ohonynt, nodwyd Heatherwood Court fel Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ar 11 Tachwedd 2022. Bydd AGIC yn gweithio'n agos gyda'r darparwr i sicrhau y gwneir cynnydd wrth ymateb i'r pryderon hyn ac y caiff gwelliannau eu gwneud.

---

<sup>1</sup> Gweler: [Rhoi gwybod i ni am ddigwyddiad | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru \(agic.org.uk\)](https://www.agic.org.uk)

## Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion y rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

